CAM 1 – YR ADOLYGIAD EANG

Rhagarweiniad

Y cam cyntaf yn y cydadolygiad yw gwerthusiad eang a chynhwysfawr, gyda phwyslais ar gasglu gwybodaeth o ystod eang o ffynonellau a gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau (arolygon, dadansoddi ffeiliau, cyfweliadau grŵp gyda rhanddeiliaid, adolygu gwybodaeth sy'n bodoli eisoes ynglŷn â pherfformiad). Dilynir hynny gan yr asesiad interim, pan ddadansoddir yr wybodaeth o'r cam cyntaf. Mae'r tîm adolygu'n sefydlu faint o dystiolaeth ddibynnol sydd eisoes wedi'i chasglu, yn gwneud asesiad cychwynnol o'r cryfderau a'r gwendidau cymharol, ac yn penderfynu ar ba feysydd y byddir yn canolbwyntio yn y gwaith maes yn yr adolygiad manwl yn y cam nesaf.

Cerrig milltir:

- Hysbysu (Wythnos 1)
- Cyfarfod cynllunio'r adolygiad (Wythnos 3)
- Cyfarfod paratoi (Wythnos 4)
- Cwblhau'r templed gwybodaeth ragarweiniol (Wythnosau 3-8)
- Arolygon (Wythnosau 6-10)
- Gwaith maes Cam 1 (Wythnos 12)
- Asesiad interim (Wythnos 14)
- Cyfarfodydd rhagarweiniol ar gyfer Cam 2 (Wythnos 18)

Hysbysu

Bydd awdurdodau lleol yn cael eu hadolygu yn yr un drefn yn gyffredinol ag yn y cylch cyntaf o gydadolygiadau. Bydd pob awdurdod yn ymwybodol o'r amseru yn fras ar gyfer ei gydadolygiad pan gyhoeddir rhaglen arolygu Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, ac o'r gwaith a wneir o dan Raglen Cymru ar gyfer Gwella i gytuno ar y cynllun rheoleiddio blynyddol.

Hysbysir yr awdurdod yn ffurfiol ynghylch y cydadolygiad o leiaf dri mis cyn i waith maes yr adolygiad eang gychwyn, drwy gyfrwng llythyr ysgrifenedig at y Prif Weithredwr oddi wrth y Prif Arolygydd Gwasanaethau Cymdeithasol ac Archwilydd Cyffredinol Cymru. Anfonir copi o'r llythyr hysbysu at y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r llythyr yn enwi'r adolygydd arweiniol ac yn darparu copïau o'r Arweiniad i Gydadolygiadau yng Nghymru ar gyfer yr awdurdod lleol a chanllawiau ar gyfer y swyddog cyswllt dynodedig.

Y swyddog cyswllt

Ar yr adeg hon, bydd yr awdurdod lleol yn cadarnhau pwy yw ei swyddog cyswllt wrth yr adolygydd arweiniol. Mae cydadolygiadau'n weithgareddau manwl a chymhleth sy'n gofyn paratoi a chynllunio sylweddol. Maent yn fentrau ar y cyd rhwng yr awdurdod lleol, Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Bydd yr holl gyrff hyn yn amcanu gweithio i'r safonau uchaf posibl drwy gydol cyfnod y cydadolygiad ond byddant yn gweithredu dan gryn bwysau. Mae'n bwysig na fyddir yn amharu ar weddill gwaith yr awdurdod ac mae'n rhaid cyflawni pob cam o'r adolygiad ar amser, gan y gallai adolygwyr fod yn ymwneud â mwy nag un adolygiad.

Mae gan swyddogion cyswllt swyddogaeth allweddol ynglŷn â rheoli'r prosiect cyfan. Bydd angen i'r swyddog cyswllt fod â digon o awdurdod i allu adnabod a datrys materion sy'n codi. Bydd gofyn iddynt fod â gwybodaeth eang o'r awdurdod a'r ardal. Profodd yn fanteisiol i'r swyddog cyswllt fod â chymorth gweinyddol penodol yn ystod yr adolygiad, er mwyn sicrhau bod y rhaglen yn cael ei gweinyddu'n effeithiol o ddydd i ddydd heb fwyta amser rheoli costus. I gynorthwyo'r swyddog cyswllt i gyflawni'r tasgau sy'n ofynnol, y mae llawer ohonynt o reidrwydd yn ddarnau cymhleth o waith, darperir canllawiau manwl yn yr adran fframwaith yn y llawlyfr hwn.

Prif dasgau'r swyddog cyswllt yw:

- bod yn rheolwr prosiect ar gyfer y broses adolygu ar ran yr awdurdod;
- bod yn gyfrifol am ddarparu'r wybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer yr adolygiad, gan gynnwys gwybodaeth ragarweiniol a rhestri o ddefnyddwyr gwasanaeth i'w defnyddio wrth gyflawni arolygon a dadansoddi ffeiliau achos;
- cynllunio a threfnu'r rhaglen gwaith maes gyda'r adolygydd arweiniol a briffio'r rhai fydd yn cymryd rhan;
- cynorthwyo'r adolygwyr gyda'u gweithgarwch yn ystod y gwaith maes a chynorthwyo i ddatrys unrhyw anawsterau gyda'r amserlen neu gyda chyfathrebu.

Bydd yr adolygydd arweiniol yn darparu ar gyfer y swyddog cyswllt yr holl ddogfennau perthnasol, gan gynnwys y taflenni gwybodaeth ar gyfer y cydadolygiad (**Atodiad 1.2**), deunydd cyhoeddusrwydd a'r templed gwybodaeth ragarweiniol (**Atodiad 1.3**). Bydd y swyddog cyswllt yn amlinellu'r ffordd mae'r awdurdod lleol yn bwriadu hysbysu rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys y cyhoedd yn gyffredinol, ynghylch y cydadolygiad.

Cyfarfod cynllunio'r adolygiad

Bydd y canlynol yn bresennol yn y cyfarfod:

- yr adolygydd arweiniol
- swyddog gwybodaeth y cydadolygiad
- y cydgysylltydd cymorth ar gyfer y cydadolygiad
- swyddog cyswllt yr awdurdod lleol
- swyddogion rheoli'r gwasanaethau cymdeithasol a pherfformiad corfforaethol

Bydd y cyfarfod yn cwmpasu cynlluniau ar gyfer:

- cwblhau'r templed gwybodaeth ragarweiniol;
- rhannu'r dogfennau sydd eu hangen ar gyfer y cydadolygiad;
- darparu rhestri o ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr ar gyfer yr arolygon a samplu achosion;
- y gwaith maes ar gyfer yr adolygiad eang.

Gwelir agenda enghreifftiol ar gyfer y cyfarfod cynllunio data fel **Atodiad 1.4** yn yr adran hon.

Y cyfarfod rhagarweiniol

Bydd y canlynol yn bresennol yn y cyfarfod hwn: y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol, y swyddog(ion) haen uchaf sydd â'r cyfrifoldeb dros swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, y swyddog cyswllt, yr adolygydd arweiniol a'r cydgysylltydd cymorth ar gyfer y cydadolygiad. Bydd y cyfarwyddwr fel arfer hefyd yn gwahodd uwch reolwyr eraill yn y gwasanaethau cymdeithasol.

Bydd y cyfarfod hwn yn cwmpasu:

- briffio cyffredinol ynghylch y broses gydadolygu a'r amserlen fras;
- cadarnhau aelodaeth y tîm cydadolygu;
- cyfle i'r cyfarwyddwr a'r tîm rheoli ddarlunio sefyllfa bresennol yr awdurdod a'r cyd-destun lleol y mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn gweithredu o'i fewn (gwleidyddol, ariannol, sefydliadol) – gan dynnu sylw'r tîm cydadolygu at unrhyw faterion sydd o bwys allweddol;
- swyddogaethau a disgwyliadau'r amrywiol brif gyfranogwyr a rhanddeiliaid;
- adolygiad o'r gwaith sy'n ofynnol ar gyfer gweddill y broses adolygu;
- trafodaeth ynghylch unrhyw faterion sy'n debygol o effeithio ar hynt yr adolygiad a chytuno ar ddyddiadau ar gyfer cerrig milltir;
- dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd a gweithgareddau i ddod, fel bo'n ofynnol.

Mae'r cyfarfod yn gyfle pwysig i'r tîm cydadolygu ddysgu mwy ynghylch yr awdurdod ac i gynllunio manylion gwaith pellach. Awgrymir agenda safonol ar gyfer y cyfarfod rhagarweiniol ac fe welir hwnnw fel **Atodiad 1.5** yn yr adran hon.

Gwybodaeth ragarweiniol

Bydd y tîm cydadolygu yn casglu ac yn dadansoddi gwybodaeth sy'n bodoli'n barod ynghylch pob un o'r pedwar maes ar ddeg y gwneir dyfarniadau ffurfiol amdanynt (tudalennau 26 - 29 yn y canllawiau, adran 0.5 yn y llawlyfr) o amrywiaeth o ffynonellau:

- y gwerthuso perfformiad blynyddol ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol;

- dangoswyr perfformiad a data ystadegol arall;
- gwybodaeth Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella;
- arolygwyr ac archwilwyr eraill;
- yr awdurdod lleol.

Mae'r tîm cydadolygu yn ceisio defnyddio gwybodaeth sy'n bodoli eisoes, gan osgoi gofyn am wybodaeth eilwaith. Byddant yn cyfarfod gyda chynrychiolwyr o Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru (yn cynnwys archwiliwr, rheolwr perthynas, ac arolygydd cyswllt gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod), arolygiaethau eraill ac asiantaethau gwella i geisio gwybodaeth ynghylch cyd-destun a pherfformiad yr awdurdod lleol.

Gofynnir i'r awdurdod lleol ddarparu:

- diweddariadau (fel bo'n ofynnol) i wybodaeth a gyflwynwyd ar gyfer y gwerthuso perfformiad ac i ddangoswyr perfformiad;
- gwybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer cyflawni arolygon a samplu ffeiliau achos (rhestri defnyddwyr, atgyfeiriadau ac achosion);
- data ynghylch gweithgaredd mewn perthynas â phrosesau rheoli achosion;
- canlyniadau unrhyw arolygon o ddefnyddwyr a gofalwyr ac arolygon staff a gyflawnwyd gan yr awdurdod ei hun;
- gwybodaeth sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni'r gwaith maes archwilio (pwy yw pwy a ble mae beth, rhestri o ddarparwyr gwasanaethau a chyrff sy'n bartneriaid, manylion strwythurau timau a lleoliad gwasanaethau);
- rhai dogfennau strategol (megis cynlluniau statudol).

Pryd bynnag y bo hynny'n bosibl, gosodir yr wybodaeth hon mewn templed (**Atodiad 1.3** yn yr adran hon) a ddefnyddir i goladu data, meintiol gan fwyaf, ynghylch perfformiad a gweithgaredd ym mhob un o'r pedwar maes ar ddeg y gwneir dyfarniadau ffurfiol amdanynt. Bydd y tîm cydadolygu wedyn yn rhannu'r templed hwn gyda'r awdurdod lleol a daw cwblhau'r fersiwn derfynol yn gyfrifoldeb ar y cyd.

Mae llywodraeth ganol yn ystyried hunanasesu fel un o'r egwyddorion allweddol mewn arolygu gwasanaethau cyhoeddus. Un o'r prif ffynonellau gwybodaeth yw dadansoddiad yr awdurdod ei hun o'i sefyllfa mewn perthynas â'r pedwar maes ar ddeg ac o ddilysrwydd y dystiolaeth mae'n gallu ei chyflwyno. Mae hyn ar gael i'r tîm cydadolygu ar ffurf yr hunanasesiad a gwblheir gan yr awdurdod lleol fel rhan o'r gwerthuso perfformiad blynyddol ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r templed yn gwahodd yr awdurdod lleol i ddiweddaru'r asesiad hwn a'r dystiolaeth a gyflwynir i'w ategu.

Gall peth o'r dystiolaeth fod mewn adroddiadau pwyllgorau, dogfennau cynllunio a dogfennaeth arall. Dylid rhoi rhif mynegai i ddogfennau cyfeirio o'r fath. Gofynnir i awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth mewn ffordd eglur ac yn seiliedig ar dystiolaeth, a fydd yn cynorthwyo'r tîm cydadolygu i ddod i gasgliadau ynghylch y ddau brif gwestiwn *Pa mor dda yw'r gwasanaethau?* a *Pa mor alluog yw'r awdurdod i gynnal a gwella gwasanaethau?* Ar yr adeg hon, mae yna werth arbennig mewn pwysleisio:

- deunydd meintiol, yn hytrach na disgrifiadau naratif;
- gwybodaeth am dueddiadau mewn perfformiad;
- ategu'r pwyntiau a wneir gyda data;
- tystiolaeth o weithgarwch a chyflawniadau;

- yr effaith ar ddefnyddwyr gwasanaethau, gan gynnwys enghreifftiau o achosion.

Gofynnir i'r awdurdod gynhyrchu fersiwn electronig o'r templed gwybodaeth ragarweiniol a dau gopi o bob cyfeiriad a grybwyllir. Mae un copi o bob cyfeiriad i'w anfon yn electronig at y tîm cydadolygu ar gyfer ei lyfrgell tra cedwir un copi gan yr awdurdod, a fydd ar gael i'r adolygwyr yn ystod yr ymweliad safle. Mae yna rai dogfennau safonol, megis cynlluniau statudol, y bydd ar y tîm cydadolygu fel arfer eu hangen, a cheir rhestr o'r rhain yn yr adran o'r Llawlyfr sy'n ymdrin â gwybodaeth ragarweiniol (1.3).

Pan fo angen cyflwyno gwybodaeth ynghylch gwasanaethau a defnyddwyr gwasanaethau oddi wrth nifer o asiantaethau, dylai'r awdurdod ystyried beth yw'r ffordd orau o gael a chyflwyno'r wybodaeth honno. Mae'r hunanasesiad yn arbennig o ddefnyddiol pan fydd wedi cael ei baratoi yn dilyn ymgynghori â rhanddeiliaid. Efallai bydd yr awdurdod lleol am drefnu ei fod ar gael ar gyfer yr holl randdeiliaid hynny fydd yn cael eu cyfweld yn ystod yr adolygiad, gan gynnwys aelodau o'r staff.

Arolygon

Mae arolygon drwy holiaduron yn ffynhonnell allweddol o wybodaeth ar gyfer cam yr adolygiad eang. Mae'r broses gydadolygu'n gofyn cwblhau tri arolwg:

1. Arolwg defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr

Anfonir hwn at drawstoriad eang a chynrychioliadol o ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr, gyda'r sampl wedi'i dewis ar hap. Mae mewn dwy ran. Mae'r rhan gyntaf yn cynnwys cyfres o ddatganiadau syml, gyda blychau ticio wedi'u graddio fel y gall y sawl sy'n llenwi'r holiadur nodi i ba raddau mae'n cytuno â'r datganiad. Mae Rhan 2 yn darparu gofod ar gyfer sylwadau ychwanegol os dymuna'r sawl sy'n llenwi'r holiadur wneud rhai. Mae'r ymarfer ar raddfa sy'n galluogi casglu gwybodaeth oddi wrth nifer fawr o bobl. Gellir dangos peth o'r dystiolaeth mewn ffordd feintiol sy'n golygu y gellir cymharu awdurdodau lleol â'i gilydd.

Diben yr holiadur yw creu darlun cyffredinol o farn defnyddwyr a gofalwyr ynghylch eu profiadau o'r gwasanaethau cymdeithasol. Yn benodol, mae'r cwestiynau'n canolbwyntio ar y saith maes a gynhwysir yn yr agwedd *pa mor dda yw'r gwasanaethau?* ar y dyfarniad cyffredinol (mynediad, rheoli ac adolygu achosion, ystod y gwasanaethau ac ati).

Dewisir y sampl drwy ddefnyddio fformiwla unffurf er mwyn sicrhau ei bod yn gynrychioliadol ac y ceir ymateb cymesur oddi wrth yr holl ystod o ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr o fewn yr awdurdod, ar draws achosion sy'n parhau'n agored a rhai sydd wedi eu cau yn ddiweddar (o fewn y 3 i 4 mis blaenorol) fel ei gilydd. Y tîm cydadolygu sy'n darparu'r deunyddiau ar gyfer yr holiadur ac yn dadansoddi'r canlyniadau. Gellir darparu cymorth ariannol i gynorthwyo gyda gwasanaethau eirioli a chyfieithu, os na all yr awdurdod lleol fodloni'r anghenion hynny.

Cynhwysir canllawiau ar gyfer yr awdurdod lleol ynglŷn â chyflawni'r arolwg yn **Atodiad 1.6** a chopi o'r holiadur yn **Atodiad 1.7**.

2. Arolwg staff

Mae'r holiadur hwn yn cynnig y cyfle i'r staff ddweud wrth y tîm cydadolygu am y gwasanaethau cymdeithasol. Defnyddir yr wybodaeth a gesglir drwy'r holiadur i gynorthwyo'r tîm:

- i ddeall beth, yng ngolwg trawstoriad cynrychioliadol o'r staff, yw'r materion allweddol o fewn y gwasanaethau cymdeithasol;
- i adnabod meysydd ar gyfer ymchwilio ymhellach;
- i ddarparu tystiolaeth i arwain at ffurfio barn ynghylch meysydd megis y gweithlu, arweiniad a diwylliant.

Dadansoddir yr holiaduron a'u trafod gyda'r awdurdod lleol, a darperir crynodeb pan fydd yr adroddiad terfynol yn cael ei gyhoeddi.

Cynhwysir canllawiau ar gyfer yr awdurdod lleol ynglŷn â chyflawni'r arolwg yn **Atodiad 1.8** a chopi o'r holiadur yn **Atodiad 1.9**.

3. Arolwg partneriaid a rhanddeiliaid

Dosberthir yr holiadur hwn yn gynnar yn y broses gydadolygu, pan fydd y tîm yn ceisio cael dealltwriaeth gyffredinol o'r gwasanaethau cymdeithasol a sut maent yn gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol. Mae'n rhoi cyfle i'r grwpiau hyn gynnig eu barn nhw ynghylch ansawdd y gwasanaethau cymdeithasol a'r ffordd y mae'r awdurdod lleol yn gweithredu'r agenda gofal cymdeithasol.

Cynhwysir canllawiau ar gyfer yr awdurdod lleol ynglŷn â chyflawni'r arolwg yn **Atodiad 1.10** a chopi o'r holiadur yn **Atodiad 1.11**.

Gwaith maes yr adolygiad eang

Bydd y tîm cydadolygu yn treulio wythnos o fewn yr awdurdod ar gyfer cyflawni'r gwaith maes ynglŷn â'r cam eang. Mae pedair prif elfen i hyn:

- dadansoddi ffeiliau achos
- cyfarfodydd gyda grwpiau o randdeiliaid
- rhaglen o ymweliadau gan yr asesydd lleyg
- mynediad agored.

1. Dadansoddi ffeiliau achos

Mae'r tîm cydadolygu'n dadansoddi sampl o ffeiliau achos o bob un o'r prif feysydd gwasanaeth. Maent yn edrych ar agweddau allweddol ar y ddarpariaeth gwasanaethau cymdeithasol i ddysgu sut yr asesir ac y byddir diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr. Eto, mae ymholiadau'n canolbwyntio ar y saith maes a gynhwysir yn yr elfen *pa mor dda yw'r gwasanaethau?* o'r dyfarniad cyffredinol (asesu, rheoli ac adolygu achosion, yr ystod o wasanaethau a ddarperir, ac ati). Mae dadansoddi ffeiliau achos yn darparu tystiolaeth gref ynghylch profiad defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr o bolisïau a systemau'r awdurdod lleol.

Mae'r awdurdod lleol yn darparu oddeutu 80 o ffeiliau achos i'w harchwilio gan yr adolygwyr. Yr adolygydd arweiniol sy'n gyfrifol am ddewis y ffeiliau achos i edrych arnynt, allan o sampl o enwau a ddarperir gan yr awdurdod. Yr arfer yn gyffredin yw dewis rhwng 8 a 10 o achosion o bob un o'r prif feysydd gwasanaeth. Penderfynir yn derfynol ar y dewis hwn ddim llai na phythefnos cyn cychwyn darllen ffeiliau. Unwaith y cytunir ar y sampl o achosion, gofynnir i'r rheolwr achos/ymarferydd perthnasol gwblhau ffurflen fer ynghylch pob achos.

Bydd y tîm cydadolygu yn darllen oddeutu 45 o'r achosion mwyaf cymhleth yn fanwl (5 yr un o bob grŵp defnyddwyr). Yn dibynnu ar faint yr awdurdod, craffir ar 3-5 achos arall ar gyfer pob grŵp defnyddwyr gwasanaethau mewn perthynas â meysydd penodol megis mynediad, asesu, ystod o wasanaethau ac ati. Gall adolygwyr ofyn am gael gweld ffeiliau eraill ar gyfer unrhyw ddefnyddiwr gwasanaethau (er enghraifft, gofal preswyl, gofal dydd ac ati).

Dylai'r awdurdod gasglu'r ffeiliau y gofynnwyd amdanynt ynghyd yn y lleoliad a gytunwyd erbyn y diwrnod cyntaf o ddarllen ffeiliau, gan drefnu i'w storio'n ddiogel. Os bydd ar dîm gwasanaethau cymdeithasol angen ffeil yn ystod y cyfnod dadansoddi ffeiliau achos, bydd yr adolygwyr yn sicrhau ei bod yn cael ei darllen a'i dychwelyd cyn gynted ag y bo modd. Ni fydd ffeiliau'n cael eu cymryd oddi ar y safle ac fe'u dychwelir i'r timau yn syth ar ôl y gwaith dadansoddi ffeiliau achos. Mae'n fwyaf effeithiol fel arfer darparu'r ffeiliau mewn safle canolog, y gall yr adolygwyr ei ddefnyddio fel canolfan ar gyfer y cyfnod hwn yn yr awdurdod. Os cedwir cofnodion achos ar systemau electronig, dylid sicrhau mynediad at gyfrifiaduron addas ar gyfer darllen y cofnodion hynny neu dylid darparu copïau papur.

Yn sgil y pwerau i fynnu gwybodaeth a freiniwyd yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003, mae gan adolygwyr yr awdurdod i archwilio unrhyw ffeil neu gofnod sy'n gysylltiedig ag adolygiadau ac ymchwiliadau.

Yn dilyn darllen y sampl o ffeiliau, detholir nifer llai o achosion i'w harchwilio'n fwy trwyadl drwy gyfrwng cyfweliadau gyda defnyddwyr a gofalwyr unigol (os cytunant), rheolwyr achos a darparwyr

gwasanaethau. Ceir rhagor o wybodaeth ynghylch yr agwedd hon ar y cydadolygiad yn yr adran ar astudiaethau achos.
Gall adolygwyr ofyn am weld rhagor o ffeiliau achos yn ystod y cam eang a'r cam manwl hefyd, gan geisio rhagor o dystiolaeth ynghylch themâu sy'n dod i'r amlwg.

Cynhwysir canllawiau ar gyfer yr awdurdod lleol ynglŷn â dadansoddi ffeiliau achos yn **Atodiad 1.12** a chopi o'r drefnlen ar gyfer ymdrin â ffeiliau achos ar gyfer y rheolwr achos/gweithredwr unigol yn **Atodiad 1.13.**

2. Cyfarfodydd gyda rhanddeiliaid

Yn ystod yr wythnos ar y safle, mae yna gyfle ar gyfer uchafswm o bump o gyfarfodydd grŵp gyda rhanddeiliaid. Mae hyn yn debygol o gynnwys:

- aelodau etholedig blaenllaw ac uwch reolwyr;
- y tîm rheoli gwasanaethau cymdeithasol;
- sefydliadau sy'n bartneriaid;
- y grŵp cyfeirio ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr.

Diben y cyfarfodydd yw galluogi'r grwpiau hyn i amlinellu'n fras yr hyn a ystyriant yw'r prif faterion ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol. Os gofynnir iddynt wneud hynny, gall y tîm cydadolygu ddarparu rhestr o eitemau posibl ar gyfer agendâu'r cyfarfodydd gyda'r sefydliadau sy'n bartneriaid a'r grŵp cyfeirio ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr. Mae'n arferol i ddau adolygydd fynychu pob cyfarfod. Bydd yr asesydd lleyg yn penderfynu gyda'r adolygydd

arweiniol faint fydd eu cyfranogiad nhw, er y byddant fel arfer yn cymryd rhan yn y cyfarfod gyda'r grŵp cyfeirio.

3. Rhaglen ymweliadau gan yr asesydd lleyg

Disgrifir swyddogaeth yr asesydd lleyg yn Adran 0.3.2 y Llawlyfr. Mae aseswyr lleyg yn dod â phersbectif gwahanol i waith timau adolygu drwy gynrychioli safbwyntiau'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau a'r cyhoedd yn gyffredinol. Maent yn ategu'r gwaith a wneir gan arolygwyr proffesiynol, yn rhannol drwy ganolbwyntio ar brofiadau a buddiannau defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn eu cysylltiadau â'r gwasanaethau cymdeithasol a sefydliadau sy'n bartneriaid.

Gofynnir i'r awdurdod lleol gynllunio rhaglen o ymweliadau gan yr asesydd lleyg yn ystod yr wythnos hon fel y gallant:

- siarad â phobl sy'n defnyddio gwasanaethau;
- ymweld â lleoedd lle caiff gwasanaethau eu darparu (yn cynnwys canolfannau cyswllt, cyfleusterau gofal dydd a safleoedd preswyl).

Er y bydd angen i'r awdurdod lleol friffio'r asesydd lleyg i ryw raddau ynghylch y safleoedd y bydd yn ymweld â nhw (yn arbennig os oes yna faterion sy'n bwysig ar y pryd, megis cynlluniau ar gyfer newid defnydd neu gau safleoedd, adnewyddu cyfleusterau ac ati), nid yw hyn yn rhan o'r arolwg ac felly gall fod yn weddol anffurfiol. Bydd yr asesydd lleyg yn canolbwyntio'n bennaf ar y profiad a gynigir i'r cyhoedd. Efallai bydd aseswyr lleyg am baratoi ar gyfer ymweliadau drwy, er enghraifft, ddarllen taflenni gwybodaeth ynghylch gwasanaethau, adroddiadau o adolygiadau diweddar a gwybodaeth ysgrifenedig arall sydd ar gael.

Dylai'r asesydd lleyg gydymffurfio â chod ymarfer, ac mae yna ganllawiau ar eu cyfer sy'n disgrifio'u cyfrifoldebau pan fyddant yn ymweld â safle lle darperir gwasanaethau. Disgwylir y byddant yn:

- parchu natur gyfrinachol unrhyw wybodaeth a dderbyniant;
- parchu gofod preifat y bobl y byddant yn eu cyfarfod
- ymddwyn mewn ffordd sy'n sensitif i amrywiol anghenion ac amgylchiadau defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr unigol;
- trin pobl gyda chwrteisi a pharch a gwrando ar yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud;
- holi cwestiynau mewn ffordd addas a gwrando'n astud;
- ymddwyn bob amser mewn ffordd sy'n cynnal hyder eraill eu bod yn onest, yn annibynnol ac yn agored eu meddwl;
- osgoi cynnig cyngor i ddefnyddwyr gwasanaethau neu staff, heblaw gyda chaniatâd yr adolygydd arweiniol;
- osgoi defnyddio'r adolygiad fel llwyfan i hyrwyddo safbwyntiau penodol;
- ffurfio barn resymol a theg yn seiliedig ar yr hyn a welsant ac a glywsant;
- hysbysu eu cydweithwyr yn brydlon ynghylch unrhyw faterion sy'n peri pryder.

4. <u>Mynediad agored</u>

Mae'r tîm cydadolygu yn darparu taflenni, posteri, patrymau o ddatganiadau i'r wasg a deunydd arall i gynorthwyo'r awdurdod lleol i hysbysu pobl ynghylch y cydadolygiad ac i esbonio wrthynt sut y

gallan nhw gymryd rhan. Yn y deunydd cyhoeddusrwydd hwn, mae'r tîm cydadolygu yn annog pobl i fynegi eu barn ac i sôn am eu profiadau mewn amryw o ffyrdd – mewn ysgrifen, ar y ffôn, drwy e-bost neu drwy ddefnyddio gwefan. Yn ystod eu hamser ar y safle, byddant yn adolygu'r deunydd a gafwyd mewn ymateb i'r gwahoddiad hwn.

Ar ddiwedd gwaith maes y cam eang, mae'r tîm cydadolygu'n cyfarfod gyda chyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol, penaethiaid gwasanaethau a'r swyddog cyswllt i gynnig rhywfaint o adborth uniongyrchol ac i drafod rhai o'r materion a allai fod yn dod i'r amlwg. Ar yr adeg hon, gwaith sydd ar y gweill yw'r adolygiad; safbwynt dros dro fydd unrhyw farn a fynegir a gall newid wrth i ragor o dystiolaeth gael ei chasglu.

Asesiad interim

Yn ystod y cam hwn, caiff gwybodaeth o bob agwedd ar yr adolygiad eang ei dadansoddi.

Mae'r tîm cydadolygu'n cyfarfod er mwyn:

- sefydlu faint o dystiolaeth ddibynadwy a gasglwyd eisoes, gan nodi unrhyw fylchau mewn tystiolaeth y mae angen eu llenwi;
- gwneud asesiad cychwynnol o nerthoedd a gwendidau cymharol;
- penderfynu ynghylch pa feysydd y dylid canolbwyntio arnynt yn y prif waith maes.

Wrth benderfynu ar beth y dylid canolbwyntio yn y prif waith maes, nod y tîm fydd cyflwyno darlun cytbwys o'r gwasanaeth. Mae hyn yn

golygu ymchwilio ymhellach i unrhyw feysydd sy'n achosi pryder sylweddol a hefyd unrhyw feysydd sy'n amlygu arfer da. Bydd y penderfyniad hefyd yn cymryd i ystyriaeth unrhyw flaenoriaethau cenedlaethol. Gall y tîm edrych am haenau neu drawstoriadau o'r gwasanaethau sy'n debygol o adlewyrchu materion ehangach.

Cadeirir y cyfarfod gan safonwr allanol, ac mae hynny'n elfen allweddol mewn sicrhau ansawdd cydadolygiadau. Bydd y safonwr yn cynghori'r adolygydd arweiniol ac, fel bo'n briodol:

- yn herio unrhyw ganfyddiadau neu ddamcaniaethau interim, er mwyn sicrhau bod yna dystiolaeth ddigonol ar gael;
- yn cadarnhau pa wybodaeth ychwanegol y mae angen ei cheisio drwy waith maes yr adolygiad manwl.

Ar ddiwedd yr asesiad interim, dylai fod yna:

- set o gwestiynau neu faterion y mae angen ymchwilio iddynt yn ystod y cam gwaith maes;
- asesiad o sut y dylid dyrannu adnoddau'r tîm cydadolygu, er mwyn canolbwyntio ar y prif faterion ar gyfer yr adolygiad hwnnw ac ar gyfer yr awdurdod lleol;
- asesiad o'r data sydd ar gael, a phenderfyniad ar yr eitemau y mae angen eu gwirio, yr wybodaeth bellach sydd i'w cheisio a'r deunydd sy'n debygol o fod o gymorth ar gyfer paratoi'r adroddiad terfynol.

Unwaith y bydd yr asesiad wedi'i gwblhau, bydd yr adolygydd arweiniol yn dechrau cynllunio'r rhaglen ar gyfer gwaith maes yr adolygiad manwl gyda swyddog cyswllt yr awdurdod lleol.

Cyfarfodydd rhagarweiniol ar gyfer yr adolygiad manwl

Bydd aelodau'r tîm cydadolygu yn treulio un diwrnod yn yr awdurdod lleol er mwyn:

- cyflwyno'u hunain;
- briffio ynghylch y broses adolygu ac ateb unrhyw gwestiynau;
- cynnig rhywfaint o adborth ynghylch yr asesiad interim;
- trafod cynlluniau ar gyfer gwaith maes yr adolygiad manwl.

Cyfarfodydd rhagarweiniol y bwriedir i'r rhain fod. Bydd gan lawer o'r rhai sy'n cymryd rhan gyfle yn ystod y cam nesaf yn y broses i gael deialog helaethach gyda'r tîm cydadolygu.

Cynllunnir y rhaglen ar gyfer y cyfarfodydd hyn i fodloni anghenion yr awdurdod dan sylw. Mae'n arferol i gyfarfodydd gael eu cynnal gyda'r canlynol:

- tîm rheoli'r gwasanaethau cymdeithasol;
- y Prif Weithredwr ac aelodau blaenllaw (gweithredol a chraffu);
- staff y gwasanaethau cymdeithasol[1];
- rhanddeiliaid allweddol;
- y grwpiau cyfeirio ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr.

[1] Mae adolygwyr yn croesawu trawstoriad o aelodau staff i fynychu'r cyfarfodydd hyn er mwyn sicrhau fod yna gyfathrebu da ynghylch diben a ffurf yr adolygiad.